

DEWISIADAU RHYNGRWDYD



Mae yna nifer o ffyrdd o gael y rhyngrwyd, y ffordd fwyaf poblogaidd yw gosod band eang trwy eich llinell ffôn cartref. Gallwch hefyd gysylltu gan ddefnyddio'ch ffôn clyfar, dyfais lechen, neu uned Wi-Fi symudol.

Band Eang

Fel rheol, gosod band eang yn eich cartref yw'r opsiwn mwyaf cost-effeithiol yn y tymor hir i gael mynediad i'r rhyngrwyd. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr band eang yn gofyn i chi dderbyn contract sy'n para isafswm o 12 mis.

I ddod o hyd i'r bargeinion gorau gallwch ddefnyddio gwefan [Uswitch](#).

Tariff BT Home Essentials

Mae Home Essentials yn darparu cyflymder lawrlwytho o 36 Mbps ar gyfartaledd, a 700 munud o alwadau am £15 y mis

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yma: [Tariff BT Home Essentials](#)

Cardiau Sim Data

Os oes angen mynediad i'r rhyngwrwd arnoch gartref, gallai cael cerdyn sim data yn unig fod yn opsiwn da. Gellid defnyddio hwn mewn ffôn clyfar, uned MiFi, neu lechen a gellir ei gael ar sail contract neu dalu wrth fynd. Os ydych chi am ei ddefnyddio ar gyfer eich llechen mae angen i chi wirio a yw'n gallu gweithio gyda sim.

Enghraifft o gerdyn sim data yn unig yw [Smarty](#).

MiFi/ Wi-Fi Symudol

Os oes gennych nifer o ddyfeisiau neu os nad oes gennych lechen sy'n gallu gweithio gyda sim, gallai uned MiFi fod yn opsiwn da. Mae'r rhain yn ddyfeisiau rydych chi'n rhoi cerdyn sim ynddynt ac maen nhw'n caniatáu ichi gysylltu hyd at 10 dyfais. Gellir prynu'r rhain o siopau fel Argos, Amazon a Currys. Dyma rai enghreifftiau: [MiFi/Wi-Fi symudol](#).

Er mwyn eich helpu i ddewis yr opsiwn gorau i chi, mae'n syniad da defnyddio'r nifer o'r gwefannau cymharu sydd ar gael. Money Saving Expert yw gwefan fwyaf y DU ar gyfer defnyddwyr sy'n canolbwyntio ar ddod o hyd i fargeinion, arbed arian ac ymgyrchu dros gyfiawnder ariannol. Fe welwch fanylion am opsiynau rhyngwrwd a llawer mwy yma: [Money Saving Expert](#)